Active IQ Ffitrwydd ac Ymarfer mewn Hyfforddiant Personol (Amser Llawn)

Mae'r cwrs Ffitrwydd ac Ymarfer mewn Hyfforddiant Personol yn gymhwyster newydd a chyffrous a arweinir gan gyflogwyr gyda'r opsiwn i ymadael ar ôl y flwyddyn gyntaf fel hyfforddwr ffitrwydd neu i gwblhau'r ail flwyddyn ac ymadael fel hyfforddwr personol. Blwyddyn un: Lefel 2 – yn arwain at gymhwyster fel hyfforddwr ffitrwydd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddwch yn cwblhau'r cymhwyster hyfforddwr campfa Lefel 2 ac yn gwneud modiwlau ychwanegol mewn beicio dan do, hyfforddiant cylchol a sesiynau 'kettlebell'. Yn ogystal, byddwch yn cael y cyfle i weithio gyda'r cyhoedd ac i ddod i adnabod y sector chwaraeon a hamdden yn fanwl iawn. Blwyddyn 2: Lefel 3 – Yn arwain at gymhwyster fel hyfforddwr personol. Yn ystod yr ail flwyddyn, byddwch yn dysgu sut i gynnal ymgynghoriadau gyda chleientiaid hyfforddiant personol a datblygu eich dealltwriaeth o faeth ar gyfer perfformio mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn ogystal â chael gwybodaeth ddiweddar penodol i'r sector. At hynny, byddwch yn cael y cyfle i gael mynediad at raglenni gradd addysg uwch. Mae hwn wedi'i leoli yn yr adran Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (SPS).

Gofynion Mynediad

4 TGAU yn cynnwys Mathemateg neu Saesneg, ynghyd â chyfweliad llwyddiannus gydag arweinydd y cwrs.

Rhagolygon Gyrfa

Cyflogaeth yn y diwydiant hamdden ac adloniant.

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Academi Chwaraeon Llandarcy - 0330 818 8100

HYD Y CWRS
1Y